LLEOLIAD: Neuadd y Sir, Brynbuga. Gall hyn newid yn y dyfodol os oes angen adleoli'r gwasanaeth. Ni fydd treuliau adleoli neu aflonyddwch yn cael eu talu os bydd hyn yn digwydd.

YN ATEBOL I: Rheolwr yr Amgylchedd a Diwylliant

ASESIAD O'R GYMRAEG: Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol;

DIOGELU:

Mae Diogelu Plant ac Oedolion yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn perygl i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Mae holl weithwyr a gwirfoddolwyr y Cyngor yn gyfrifol am chwarae rhan yng ngwaith lles, diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.

Rheoli Cyrchfan MonLife.....Pwy ydym ni?

Ein Diben:-

Cenhadaeth MonLife yw hybu bywydau iachach a phrofiadau ysbrydoledig a hyrwyddo egni Sir Fynwy fel lle gwyd i fod. Mae MonLife yn gyfrwng siop-un-stop ar gyfer iechyd, lles a chreu cyfleoedd amrywiol i'n holl gymunedau.

Ein hamcan yw cynyddu cystadleurwydd Sir Fynwy fel cyrchfan ymwelwyr o ansawdd uchel trwy gydol y flwyddyn er budd ei phobl, ei hamgylchedd a'i chymunedau trwy ddull adfywiol o ymdrin â thwristiaeth a model economaidd / cymdeithasol mwy cytbwys sy'n seiliedig ar gydwasanaethu anghenion preswylwyr, ymwelwyr a chymunedau.

Diben y Swydd hon:-

Tyfu economi ymwelwyr y sir a darparu cyngor marchnata arbenigol i fusnesau partner. Gweithio mewn partneriaeth, a sbarduno ein hasedau twristiaeth a'n

brandiau blaenllaw, er mwyn sicrhau eu bod yn arwain at fwy o ymweliadau gan dwristiaid a mwy o wariant i Sir Fynwy.

Disgwyliadau a Chanlyniadau'r Rôl:-

Bydd deiliad y swydd yn chwarae rhan allweddol yn strategaeth dwf gyffredinol Sir Fynwy trwy gynyddu buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol economi ymwelwyr y Sir, trwy reoli cyrchfan yn effeithiol a gweithio mewn partneriaethau cynhyrchiol gyda busnesau lleol a sefydliadau rhanddeiliaid.

Bydd eich cyfrifoldebau yn cynnwys:-

	Dyletswyddau	Tasgau
1	Creu dull mwy strategol a chydgysylltiedig o ddatblygu, rheoli a marchnata cynnig Sir Fynwy o ran ymwelwyr er mwyn tyfu economi ymwelwyr y Sir er budd ei phobl, ei chymunedau a'i hamgylchedd.	<ul style="list-style-type: none"> • Rheoli'r swyddogaeth rheoli cyrchfan o fewn Cyngor Sir Fynwy. Bydd hyn yn golygu, hefyd, rheoli'r adnoddau sydd ar gael (cyllidebau craidd, staff a chyllid a sicrhawyd yn allanol). • Cyfrifoldeb strategol am reoli a marchnata cyrchfan, cymorth busnes twristiaeth a gwybodaeth i ymwelwyr gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Datblygu, ymgynghori, a sicrhau cymeradwyaeth wleidyddol i Gynllun Rheoli Cyrchfan Sir Fynwy ac unrhyw adolygiad dilynol - cynllun a luniwyd i ysgogi twf twristiaeth a chyflawni gwelliannau parhaus i brofiad ymwelwyr i'r sir. ○ Cynghori uwch swyddogion ac aelodau etholedig ar oblygiadau posibl newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddiol perthnasol i'r diwydiant a'r effaith debygol ar dwf twristiaeth, gan gynnwys ymatebion i ymgynghoriadau perthnasol. ○ Datblygu strategaethau brandio cyrchfan a strategaethau marchnata a'u rhoi ar waith er mwyn hyrwyddo twristiaeth mewn marchnadoedd allweddol a darparu arweinwyr cymwys i fusnesau cyrchfan. • Rheoli, monitro ac adrodd ar gynnydd cyflawniad Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Fynwy • Monitro a gwerthuso dangosyddion perfformiad cyrchfan a dangosyddion perfformiad marchnata allweddol a chyflwyno adroddiadau arnynt i bwyllgorau craffu, cyllidwyr, partneriaid, aelodau etholedig, uwch swyddogion a busnesau • Rheoli buddiannau'r Cyngor mewn partneriaethau cyrchfan a pherthnasoedd â

		<p>phartneriaid er mwyn cyflawni gwelliannau o ran profiad yr ymwelydd ac ysgogi twf o ran twristiaeth gan gynnwys sefydlu a chefnogi Partneriaeth Rheoli Cyrchfan strategol ar gyfer Sir Fynwy.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi ffrydiau ariannu perthnasol a datblygu ceisiadau am gyllid sy'n bodloni meini prawf penodol er mwyn cyflawni blaenoriaethau o ran cyrchfan y cytunwyd arnynt • Annog busnesau twristiaeth a sefydliadau rhanddeiliaid i gymryd rhan mewn gwaith partneriaeth cynhyrchiol sy'n berthnasol i'w diddordebau ac sy'n gwneud y defnydd gorau o'r cyllidebau a'r adnoddau sydd ar gael o ran y gweithlu. • Mynd i'r afael â natur dymhorol a datblygu'r galw gan ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn • Gwella profiad yr ymwelydd a lefelau boddhad ymwelwyr ar gyfer y gyrchfan yn barhaus • Gweithio gyda thimau tref ac eraill i helpu i ddatblygu a hyrwyddo profiadau cadarnhaol a hunaniaethau nodedig ar gyfer trefi a phentrefi Sir Fynwy. • Cynghori a chynrychioli'r Cyngor wrth ddatblygu strategaethau / polisiâu sefydliadau eraill sydd â'r potensial i effeithio ar dwristiaeth yn Sir Fynwy. • Mynd ati i sganio'r gorwel er mwyn dod o hyd i gyfleoedd sydd â photensial i greu twf o ran twristiaeth yn Sir Fynwy a gweithio gyda phartneriaid er mwyn datblygu mentrau i wireddu'r cyfleoedd hyn.
2	Cynrychioli'r Cyngor mewn fforymau a grwpiau twristiaeth rhanbarthol a chenedlaethol	<ul style="list-style-type: none"> • Cynrychioli'r Cyngor ar grwpiau megis Fforwm Twristiaeth De-ddwyrain Cymru, Partneriaeth Marchnata De Cymru, a Phartneriaeth Ymchwil Twristiaeth Cymru • Nodi a datblygu cyfleoedd ar gyfer prosiectau twristiaeth cydweithredol a bidiau am gyllid ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. • Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu prosiectau twristiaeth eraill o bwys rhanbarthol
3	Datblygu a gwella sianeli marchnata cyrchfannau MCC yn barhaus a chyflawni ymgyrchoedd marchnata cyrchfan aml-sianel integredig	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu fel gwarcheidwad brand ar gyfer y brand marchnata cyrchfan • Rheoli, monitro a gwerthuso ymgyrchoedd marchnata cyrchfan aml-sianel integredig • Datblygu sianeli marchnata sy'n berchen i MCC yn barhaus er mwyn gwella profiad y defnyddiwr yn barhaus ac adlewyrchu

	<p>llwyddiannus ar draws cyfryngau y telir amdanynt, nas telir amdanynt a chyfryngau sy'n berchen i MCC</p>	<p>tueddiadau o ran ymddygiad defnyddwyr.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn cytuno a blaenoriaethu gweithgarwch i dargedu marchnadoedd hamdden a segmentau fforwyr annibynnol a nodwyd gan Croeso Cymru yn y DU a thramor • Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hyrwyddo cynhyrchion twristiaeth perthnasol Sir Fynwy i Gyfarfodydd, Mentrau, Cynadleddau ac Arddangosfeydd (MICE), a marchnadoedd Teithio Grŵp a'r diwydiant Teithio yn y DU a thramor. • Canolbwyntio adnoddau ar weithgareddau cysylltiadau cyhoeddus a gweithgareddau digidol ac ar ddatblygiad a gwelliant parhaus sianeli cyrchfannau ar-lein a chreu a dosbarthu cynnwys o ansawdd uchel.
4	<p>Gwella perfformiad busnes twristiaeth yn y sir</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu cyngor a chefnogaeth i fusnesau twristiaeth newydd a busnesau presennol (gan gynnwys atyniadau a weithredir gan Gyngor Sir Fynwy) er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu harlwy er mwyn diwallu a rhagori ar anghenion / disgwyliadau marchnadoedd a segmentau targed. • Datblygu cyfleoedd i alluogi busnesau cyrchfan i hyrwyddo a gwerthu profiadau ymwelwyr i farchnadoedd perthnasol • Ceisio cyllid allanol i ddatblygu/cyflwyno hyfforddiant i gynyddu cystadleurwydd diwydiant twristiaeth Sir Fynwy • Annog busnesau a threfnwyr digwyddiadau i greu a rheoli eu cofnodion ar wefan y gyrchfan er mwyn gwella ansawdd a gwelededd gwybodaeth busnes. • Nodi a datblygu cyfleoedd i fusnesau'r economi ymwelwyr fanteisio ar lwyfannau archebu cyfradd comisiwn isel a chadwyni cyflenwi lleol i leihau'r arian sy'n cael ei wario'n ddiangen o ran twristiaeth.
5	<p>Rheoli arolygon ymwelwyr, prosiectau ymchwil marchnad a STEAM a monitro ac adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y gyrchfan</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Goruchwylio'r gwaith o reoli cronfeydd data llety • Rheoli data deiliadaeth • Rheoli data / gwerthuso digwyddiadau • Comisiynu arolygon ymwelwyr i'r gyrchfan, arolygon i fusnesau ac arolygon i breswylwyr a rheoli'r data ar-lein ac all-lein yn unol â gofynion GDPR • Monitro Dangosyddion Perfformiad ar y gyrchfan a rhoi adroddiad arnynt i bwyllgorau

		perthnasol a Phartneriaeth Cyrchfan Sir Fynwy
6	Rheoli gwybodaeth ymwelwyr ar lawr gwlad yn strategol gan gynnwys buddiannau'r Cyngor yn y rhwydwaith Canolfannau Croeso.	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i ddatblygu gwasanaethau gwybodaeth cynaliadwy i ymwelwyr ar lawr gwlad er mwyn diwallu anghenion ymwelwyr presennol ac ymwelwyr yn y dyfodol. Cyflawni gwelliannau parhaus o ran ystod ac ansawdd y wybodaeth i ymwelwyr sydd ar gael drwy sianeli digidol a ffisegol
7	Darparu cyngor a chymorth marchnata arbenigol	<ul style="list-style-type: none"> Arwain ar y strategaeth frandio ar gyfer Ymwelwch â Sir Fynwy a darparu cyngor marchnata arbenigol i fusnesau partner a sefydliadau rhanddeiliaid
8	Adnabod rhwystrau i dwf twristiaeth a datblygu strategaethau i fynd i'r afael â hwy / cael gwared arnynt pan fydd hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol ehangach y Cyngor	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio mewn partneriaeth ag adrannau mewnol, rhanddeiliaid a sefydliadau allanol i ddatrys problemau a dileu rhwystrau i dwf twristiaeth gynaliadwy. Datblygu gwybodaeth i gefnogi buddsoddiad yn ansawdd ac ystod llety i ymwelwyr a datblygu cynhyrchion a phrofiadau eiconig.
9	Rheoli prosiectau a ariennir yn allanol sy'n cyflawni blaenoriaethau'r gyrchfan	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau cyllid a darparu rheolaeth prosiect effeithiol ar gyfer prosiectau a ariennir yn allanol.
11	Darparu cefnogaeth a chyngor i drefnwyr digwyddiadau allanol ac i dîm digwyddiadau mewnol Sir Fynwy	<ul style="list-style-type: none"> Ceisio cyllid allanol ar gyfer hyrwyddo a gwerthuso digwyddiadau neu ar gyfer eu cynorthwyo Datblygu a hyrwyddo adnoddau a pheccynnau cymorth i uwchsgilio trefnwyr digwyddiadau a chyflawni gwelliannau o ran rheoli digwyddiadau Monitro ac adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol digwyddiadau
12	Sicrhau y cedwir at bolisiâu iechyd a diogelwch, diogelu a chydaddoldeb	<ul style="list-style-type: none"> Bod yn gyfrifol am weithredu a monitro iechyd a diogelwch yn y gwaith mewn ardaloedd dynodedig a gweithdrefnau diogelu fel y nodir ym Mholisi a Gweithdrefnau'r awdurdod. Cefnogi a gweithredu egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal fel y nodir ym Mholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor.

Dyma'r hyn y gallwn ei gynnig i chi: -

- Cyfle i weithio mewn Sir amrywiol a deniadol.

- Byddwn yn darparu cefnogaeth rheoli a chefnogaeth tîm yn ogystal â hyfforddiant priodol, a'r cyfle i ddatblygu eich sgiliau yn seiliedig ar eich gwybodaeth a'ch profiad presennol.
- Gliniadur, ffôn symudol a'r gallu i weithio'n ystwyth, yn amodol ar anghenion y gwasanaeth.

Beth arall sydd angen i chi ei wybod..... Ein Gwerthoedd:

Caiff ein diben ei seilio ar ymdeimlad glir o bwy ydym fel sefydliad. Disgwyliwn i'r bobl sy'n gweithio gyda ni i rannu set gref o werthoedd a disgwyliwn y bydd y rhain yn amlwg yn y ffyrdd y gweithiwn ac yr ymgysylltwn gyda'n cymunedau.

Gwaith tîm: Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan. Byddwn yn gwneud y gorau glas o'r syniadau a'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a'n lleoedd.

Tryloywder: Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael y cyfle i gymryd rhan a dweud wrthym beth sy'n bwysig

Hyblygrwydd: Rydym yn hyblyg, gan alluogi darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Tegwch: Rydym yn rhoi cyfleoedd i bobl a chymunedau ffynnu. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson.

Caredigrwydd: Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb y gweithiwn gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthynas a'r cysylltiadau sydd gennym gyda'n gilydd wrth galon pob rhyngweithio.

Bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy er mwyn cyflawni'r rhain.

Yn ychwanegol:

Mae'r holl weithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithredu bob amser mewn ffordd sy'n gydnaws â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu meysydd o gyfrifoldeb ac fel rhan o'u hymddygiad cyffredinol.

Manyleb Person

Sut fyddwn yn gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y rôl hon? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch wedi arddangos y canlynol:-

	Hanfodol	Dymunol
Profiad	<p>Profiad sylweddol o ddatblygu a gweithredu strategaeth gan gynnwys sicrhau cymeradwyaeth wleidyddol, monitro ac adrodd.</p> <p>Profiad helaeth o ddatblygu cyrchfannau, marchnata a rheoli, a gweithio gyda phartneriaid i nodi, cytuno a chyflawni blaenoriaethau cyrchfan.</p> <p>Profiad sylweddol o ddatblygu, cyflwyno a gwerthuso ymgyrchoedd aml-sianel llwyddiannus sydd wedi'u llywio gan fewnwelediadau'r gynulleidfa</p> <p>Profiad o reoli tîm o staff a datblygu potensial llawn pob aelod o'r tîm</p> <p>Profiad o gofnodi a rheoli ariannol effeithiol</p> <p>Profiad o ddatblygu a rheoli prosiectau a ariennir gan grantiau, gan gynnwys profiad o nodi ffrydiau ariannu perthnasol ac ysgrifennu a chyflwyno ceisiadau grant.</p> <p>Profiad amlwg o reoli prosiect.</p> <p>Profiad o ddatblygu a rheoli sianeli marchnata cyrchfan a gwybodaeth i ymwelwyr yn barhaus er mwyn gwella profiad defnyddwyr a pherfformiad busnes yn barhaus</p>	<p>Gwybodaeth dda am gynnig Sir Fynwy o ran twristiaeth</p> <p>Profiad o reoli optimeiddio cyfryngau a pheiriannau chwilio y telir amdanynt ac sy'n berchen i MCC yn effeithiol.</p> <p>Profiad o reoli prosiectau ymchwil cyrchfan, gan gynnwys comisiynu arolygon, a dehongli ac adrodd ar ganlyniadau.</p> <p>Profiad o reoli cronfeydd data twristiaeth at ddibenion ymchwil a marchnata yn unol â gofynion GDPR.</p> <p>Profiad o ddatblygu, cyflawni a monitro cynlluniau marchnata cyrchfan er mwyn targedu marchnadoedd a segmentau a nodwyd gan Croeso Cymru, gan gynnwys datblygu cynnwys deniadol, sy'n cysylltu'n emosiynol â'i gynulleidfa.</p>
Addysg a Chymwysterau		Aelod o Sefydliad Siartredig Marchnata/Marchnatwr Siartredig
Gwybodaeth, Sgiliau a Chymwyseddau	<p>Gwybodaeth ragorol o egwyddorion rheoli cyrchfan a marchnata a gwybodaeth gyfredol am dueddiadau o ran ymddygiad ymwelwyr</p> <p>Lefelau uchel o ymwybyddiaeth o'r ystod eang o ffactorau sydd â'r potensial i effeithio ar ddiwydiant twristiaeth / economi ymwelwyr Sir Fynwy</p> <p>Gwybodaeth gyfredol am arfer gorau o ran marchnata a'r gallu i ddatblygu a rheoli brand cyrchfannau a strategaethau</p>	<p>Sgiliau mentora / hyfforddi eraill</p> <p>Ymrwymiad i gefnogi cyfleoedd gwirfoddoli</p> <p>Gwybodaeth ragorol o'r diwydiant twristiaeth yn Sir Fynwy a dealltwriaeth dda o'r ystod eang o randdeiliaid sy'n ymwneud ag economi ymwelwyr Sir Fynwy.</p> <p>Dealltwriaeth dda o sut mae gwasanaethau, adrannau a chyfarwyddiaethau'r Cyngor yn cysylltu â'i</p>

marchnata effeithiol, yn seiliedig ar fewnwelediadau'r gynulleidfa, a chyflawni ymgyrchoedd aml-sianel integredig llwyddiannus ar draws cyfryngau y telir amdanynt, nas telir amdanynt a sianeli a berchenogir.

Sgiliau TG da gan gynnwys systemau Microsoft Office, rhynggrwyd, mewnrwyd, CMS, a meddalwedd dadansoddol.

Dealltwriaeth dda o GDPR, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio ffotograffiaeth cyrchfan ac wrth reoli cronfeydd data ar gyfer ymchwil cyrchfan a marchnata

Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o egwyddorion ac arferion ymchwil twristiaeth. Y gallu i drin, prosesu a gwerthuso data.

Nodweddion Personol

Sgiliau rhyngpersonol rhagorol ynghyd â sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig cryf.

Y gallu i weithio'n effeithiol a blaenoriaethu a rheoli eich llwyth gwaith eich hun ac i gwrdd â therfynau amser. Gallu perfformio'n dda o dan bwysau a heb oruchwyliaeth uniongyrchol.

Y gallu i reoli llwythi gwaith eraill ac ymrwymiad i ddatblygu potensial llawn pob aelod o'r tîm

Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus a bod yn ymwybodol o'r arferion gorau o ran rheoli cyrchfan a'r egwyddorion ac enghreifftiau marchnata

Ymrwymiad i bolisi cyfle cyfartal, gan gynnwys ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth cydraddoldeb priodol

Ymrwymiad i bolisi a gweithdrefnau lechyd a Diogelwch a Diogelu, gan gynnwys dilyn hyfforddiant priodol.

Arall

Y gallu i yrru a meddu ar gerbyd at ddibenion gwaith a thrwydded yrru gyfredol.

Yn fodlon gweithio oriau anghymdeithasol.

gilydd.

Dealltwriaeth dda o sut mae cyfathrebu digidol a marchnata yn cyd-fynd â strategaeth dechnoleg gyffredinol y Cyngor

Gwybodaeth gyfredol am optimeiddio peiriannau chwilio a marchnata yn y cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys ymwybyddiaeth o dueddiadau mewn ymddygiad gwneud penderfyniadau e.e. pwysigrwydd cynyddol delweddau a hygredd cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr

Creadigol, arloesol, hyblyg, barod i addasu, hawdd mynd atynt, a gwrandäwr da, gan ddefnyddio dull coetsio o fewn meysydd gwasanaeth er mwyn helpu i gyflawni eu canlyniadau.

Y dycnwch sydd ei angen i weld nodau cyrchfan hirdymor yn dwyn ffrwyth.

Y gallu i fod yn greadigol ac arloesol gyda syniadau.

Sgiliau Cymraeg: Efallai y bydd gofyn i chi ddysgu neu wella eich sgiliau presennol drwy fynychu hyfforddiant Cymraeg i staff a ariennir gan y cyngor.

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch ynghlŷn â'r swydd hon, cysylltwch â:
Matthew Lewis Rhif Ffôn: 01633 644855
Dyddiad cau: 12pm ar 05/07/2024

FFRAMWAITH SGILIAU YN Y GYMRAEG
LEFEL 1

Gall ddeall ymadroddion sylfaenol bob dydd os yw'r siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir ac yn fodlon helpu. Gall gyflwyno ei hunan ac eraill a gall ofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. unigolyn yn gofyn am weld rhywun, ble mae cyfarfod xxx, toiled ac yn y blaen. Gall drosglwyddo galwadau ffôn, cyfleu neges fer neu wneud cais syml e.e. drwy e-bost.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> Gall ddeall cwestiynau syml: lle mae cyfarfod xxx, pwy yw'r person y dymunant ei weld. Gall ddeall i bwy i drosglwyddo galwad ffôn ac yn y blaen. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ynganu enwau lleoedd ac enwau personol yn gywir. Gall gyfarch unigolion wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Gall agor a chau sgwrs neu agor a chau cyfarfod. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ddarllen brawddeg fer, e.e. arwyddion syml, cyfarwyddiadau syml, eitemau agenda, gwybodaeth syml ar ffurflenni. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall agor a chau neges e-bost neu lythyr. Gall ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi. Gall ysgrifennu neges syml i gydweithiwr ar bapur neu e-bost e.e. mae hwn a hon wedi galw.

LEFEL 2

Gall ddeall brawddegau pan mae pobl yn siarad am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol syml. Gall gynnal sgwrs sylfaenol gyda rhywun i gael neu gyfnewid gwybodaeth syml, e.e. trafod sut mae person yn teimlo; rhywbeth a ddigwyddodd; cynllun syml ar gyfer y dyfodol. Gall ysgrifennu a deall negeseuon mewn llythyrau neu negeseuon e-bost yn disgrifio materion cyfarwydd ac ysgrifennu mewn brawddegau byr.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> Gall ddeall pan mae pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd e.e. rhoi gwybodaeth bersonol, siarad am beth fuont yn ei wneud, yr hyn yr hoffent ei wneud, sut y teimlant yn gyffredinol Gall ddeall pan mae pobl yn gofyn iddynt wneud rhywbeth 	<ul style="list-style-type: none"> Gall gyfathrebu gwybodaeth syml neu ofyn cwestiynau cyffredin, e.e. cael gwybodaeth gan unigolion. Gall ddefnyddio'r Gymraeg i gyrraedd a dangos empathi gydag unigolyn ond dim i gynnal yr holl sgwrs neu sesiwn yn y Gymraeg. Gall gynnal sgwrs fer gydag 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ddarllen negeseuon byr a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost, e.e. rhai sy'n gwneud cais neu'n gofyn am gyfleu neges 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ysgrifennu neges fer at gydweithiwr yn gofyn cwestiwn, yn diolch iddo/iddi, esbonio rhywbeth e.e. amser a lle cyfarfod Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost byr i drefnu apwyntiad

	<p>unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gall gyfrannu at gyfarfod ond bydd angen troi i'r Saesneg ar gyfer termau arbenigol. 		
--	---	--	--

LEFEL 3

Gall ddeall y prif bwyntiau pan mae unigolyn neu gydweithiwr yn siarad am bynciau cyfarwydd e.e. yn ystod sgwrs neu gyfarfod grŵp bach. Gall gynnal sgysiau estynedig gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith bob dydd. Gall ddisgrifio profiadau a digwyddiadau a rhoi esboniadau am a rhesymau cryno am farnau a chynlluniau. Gall ddarllen erthyglau, llythyrau neu negeseuon e-bost am bynciau cyffredinol. Gall ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. yn gofyn am rywbeth; rhoi gwybodaeth; gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> Gall ddeall unigolion a chydweithwyr wrth gyfnewid gwybodaeth neu drafod cynlluniau, os yw'r pwnc yn gyfarwydd. Gall ddeall trafodaeth mewn cyfarfod os yw'r pwnc yn gyfarwydd. Gall ddeall unigolion a chydweithwyr mewn sefyllfa gyfarwydd neu mewn sgwrs bob dydd. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall gymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgysiau gyda chydweithwyr am waith a chynlluniau os nad yw'r eirfa yn rhy dechnegol. Gall gynnal sgwrs gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. Gall gyfrannu at gyfarfod ond gall fod angen troi i'r Saesneg am dermau arbenigol. Gall addasu cywair iaith i weddu i'r gynulleidfa. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost neu lythyrau'n ymwneud â gwaith dydd i ddydd. Gall ddyfalu ystyr gair yn seiliedig ar gyd-destun os yw'r pwnc yn gyfarwydd. Gall ddarllen erthygl syml a rhwydd mewn papurau newydd neu fathau o ddeunydd ysgrifenedig mewn cylchgrawn. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost at unigolyn neu gydweithiwr am y rhan fwyaf o bynciau er mwyn gofyn am rywbeth; rhoi esboniad; disgrifio profiad neu sefyllfa; gwahodd pobl neu drefnu digwyddiad. Yn gallu ysgrifennu'n gymharol gywir wrth ddrafftio taflen wybodaeth fer neu boster yn Gymraeg yn ôl yr angen.

LEFEL 4

Gall fel arfer ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau neu drafodaethau, hyd yn oed ar bynciau anghyfarwydd. Gall siarad yn hyderus gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith, a mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol e.e. mewn cyfarfodydd neu sefyllfaoedd un-i-un gydag unigolion. Gall ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr rhugl gyda chymorth adnoddau Cymraeg a gall fwrw golwg dros destunau hir i ganfod manylion. Gall lenwi ffurflenni ac ysgrifennu adroddiadau'n ymwneud â gwaith ac ymateb yn gywir.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> Gall ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau a thrafodaethau gydag unigolion neu gydweithwyr hyd yn oed os yw'r deunydd pwnc yn anghyfarwydd. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall gyfrannu'n effeithlon at gyfarfodydd mewnol ac allanol mewn cyd-destun gwaith. Gall sgwrsio'n gysurus gydag unigolion a chyfnwid gwybodaeth fel sydd angen. Gall ddadlau dros ac yn erbyn achos penodol. Gall gadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r gadair yn hyderus. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ddarllen y rhan fwyaf ohebiaeth a bwrw golwg ar destunau hir i ganfod manylion. Gall ddeall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau papur newydd gyda chymorth geiriadur. Gall ddeall testunau, os na ysgrifennwyd mewn dull ffurfiol iawn neu dafodieithol. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall gynhyrchu gohebiaeth o bob math, adroddiadau byr, dogfennau a llenyddiaeth gyda chymorth offer cyfieithu Cymraeg e.e. Cysgair, Cysill.

LEFEL 5

Gall ddeall popeth a gaiff ei ddweud. Gall siarad yn helaeth am faterion cymhleth, gan gyflwyno gwybodaeth anodd a gall hwyluso a chrynhofi trafodaethau estynedig neu gymhleth. Gall grynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau (yn llafar ac yn ysgrifenedig) a'i chyflwyno mewn modd cydlynus. Gall fynegi ei hunan yn fyrfyr, rhugl ac yn fanwl, gan addasu'r iaith i weddu i'r gynulleidfa.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> Gall ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth gydag unigolion neu gydweithwyr. Gall ddeall amwysedd a naws iaith. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall fynegi ei hunan yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth Gall addasu arddull a chywair yr iaith i weddu i'r gynulleidfa. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ddarllen a deall bron bob testun ysgrifenedig heb anhawster, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol. Gall ddarllen testunau hir i ganfod manylion perthnasol a gall ddeall y rhan fwyaf o fathau o ddeunydd ysgrifenedig. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ysgrifennu adroddiadau mewn arddull glir addas i'r darllynydd gyda chefnogaeth offer cymorth iaith electronig. Gall ysgrifennu Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol yn ôl yr angen. Gall ysgrifennu ystod o ddogfennau yn gywir ac yn hyderus.